# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Mai 2025

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Ar y safle

### Cyfarfod cyhoeddus

(09.15 - 09.25)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

### 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

**Offerynnau Dim Gweithdrefn**

**2.1 SL(6)610 - Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025**

(Tudalennau 1 - 4)

Gorchymyn

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 1 - Adroddiad drafft

LJC(6)-14-25 - Papur 2 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, 3 Ebrill 2025

### 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)606 - Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 5 - 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 3 - Adroddiad

LJC(6)-14-25 - Papur 4 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

**4.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalennau 8 - 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 5 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dwristiaeth, 29 Ebrill 2025

LJC(6)-14-25 - Papur 6 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, 30 Ebrill 2025

**4.2 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 7 - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 30 Ebrill 2025

**4.3 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Pontio) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 12 - 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 8 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 1 Mai

2025

LJC(6)-14-25 - Papur 9 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 29 Ebrill 2025

**4.4 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025**

(Tudalen 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 10 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 30 Ebrill 2025

**4.5 Gohebiaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 16 - 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 11 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025

LJC(6)-14-25 - Papur 12 - Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2025

## 5 Papurau i'w nodi

**5.1 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Gyflawni: Ymrwymiadau i gywiro offerynnau statudol**

(Tudalennau 20 - 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)14-25 - Papur 13 - Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 28 Ebrill 2025

LJC(6)14-25 - Papur 14 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 16 Ionawr 2025

**5.2 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth**

(Tudalennau 63 - 67)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 – Papur 15 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Ebrill 2025

LJC(6)-14-25 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.25)

## Cyfarfod preifat

(09.25 - 10.50)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

(09.25 - 09.35) (Tudalennau 68 - 72)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 – Papur 17 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

(09.35 - 09.50) (Tudalennau 73 - 95)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 – Papur 18 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

LJC(6)-14-25 – Papur 19 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

(09.50 - 10.00) (Tudalennau 96 - 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 20 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

(10.00 - 10.10) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 21 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-14-25 - Papur 22 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Blaengynllunio Gwaith

(10.10 - 10.20) (Tudalennau 102 - 110)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 23 - Blaenraglen Waith [Saesneg yn unig]

## 12 Yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Charchar EF y Parc

(10.20 - 10.25)

## 13 Adroddiad monitro

(10.25 - 10.30) (Tudalennau 111 - 133)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 24 - Adroddiad monitro [Saesneg yn unig]

## 14 Offerynnau statudol a drafodwyd yn flaenorol

(10.30 - 10.40) (Tudalennau 134 - 161)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 25 - Papur [Saesneg yn unig]

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

(10.40 - 10.50) (Tudalennau 162 - 177)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-25 - Papur 26 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

# SL(6)610 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025

## Cefndir a diben

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf") yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd ("y Comisiwn") yn lle Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn unol ag adran 148(1) o'r Ddeddf, daeth darpariaethau penodol i rym ar 9 Medi 2022, sef y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 148(2) yn darparu y daw darpariaethau penodol eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025 ("y Gorchymyn") yw'r chweched Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer yn adran 148(2).

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau penodol yn y Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025. Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau penodol eraill yn y Ddeddf i rym ar 1 Ionawr 2026 a 31 Gorffennaf 2026. Daw rhai darpariaethau i rym yn llawn, daw rhai i rym i'r graddau a nodir ac mae rhai yn ddarostyngedig i ddarpariaethau darfodol neu drosiannol.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol ynghylch Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Yn ôl y Nodyn Esboniadol, mae'r rhain yn addasiadau mewn perthynas â'r system i ddarparwyr gofrestru gyda'r Comisiwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

1. Nodir bod y Gorchymyn, nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd, yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol helaeth, gan gynnwys mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Ebrill 2025**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025** |
| **DYDDIAD** | **3 Ebrill 2025** |
| **GAN** | **Vikki Howells AS, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch** |

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i'r Aelodau fy mod wedi gwneud Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025 ('y Gorchymyn') a Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025, yn dilyn cytundeb ar y Rheoliadau yn y cyfarfod llawn yr wythnos hon.

Yn dilyn y ffaith bod Medr wedi cychwyn gweithredu yr haf diwethaf, mae'r offerynnau hyn yn cyflawni'r cam nesaf o'r broses o roi swyddogaethau i Medr, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ('Deddf 2022'), a chan sicrhau hefyd bod y gwaith diwygio angenrheidiol yn cael eu cofnodi yn y llyfr statud.

Daw'r Gorchymyn ag ystod o ddyletswyddau a osodir ar Medr i rym ar 5 Ebrill 2025. Bydd y dyletswyddau hynny yn helpu i gyflwyno nifer o newidiadau allweddol, sy'n ymwneud â'r canlynol:

- datblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, sy'n nodi sut mae darparwyr i ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod barn dysgwyr yn cael eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau hynny. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr a ariennir gan Medr, neu sydd wedi'u cofrestru â Medr, gydymffurfio â'r Cod a bydd Medr yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod ac yn adrodd ar ei effeithiolrwydd.
- datblygu canllawiau i gefnogi darparwyr addysg drydyddol i baratoi cynlluniau diogelu dysgwyr. Bydd Medr yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr penodol gyflwyno cynlluniau diogelu dysgwyr iddo, i'w cymeradwyo gan Medr. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r trefniadau sy'n cael eu gwneud gan ddarparwyr i ddiogelu buddiannau myfyrwyr sydd ar gyrsiau sy'n peidio â chael eu darparu neu sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs arall.
- paratoi datganiad sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau cyllido, gyda ffocws penodol ar sicrhau tryloywder mewn perthynas â'i benderfyniadau cyllido.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion. Mae hynny yn cynnwys dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ac yn rhoi pwerau i Medr mewn perthynas ag ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

Mae'r Ddeddf 2013 ddiwygiedig yn darparu fframwaith deddfwriaethol i Medr sy'n ei alluogi i gymryd dull strategol, gan gynnig safbwynt ehangach i ddarpariaeth chweched dosbarth ysgolion a sicrhau y gall gefnogi dewis, cynnydd ac osgoi dyblygu diangen. Fodd bynnag, nid ydynt yn dileu amddiffyniadau na mesurau diogelu – er enghraifft mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg – mae'r rhain yn parhau i fod yn ofynion yn y Ddeddf honno a hefyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Elfen greiddiol o Ddeddf 2022 yw sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, gan Medr, a fydd yn darparu'r mecanwaith cyfreithiol ar gyfer goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr cofrestredig yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae'r Gorchymyn yn dod â'r holl ddarpariaethau yn Neddf 2022 i rym sy'n angenrheidiol i alluogi Medr i symud ymlaen gyda'r gwaith o sefydlu'r gofrestr, gan gynnwys datblygu ei drefn reoleiddio lawn a derbyn a phrosesu ceisiadau i'r gofrestr.

Er mwyn cefnogi ei waith goruchwylio rheoleiddiol, darperir ystod o swyddogaethau ymyrraeth i Medr sy'n ymwneud â monitro cydymffurfiaeth darparwyr cofrestredig â'r amodau cofrestru ac asesu ansawdd yr addysg drydyddol sy'n cael ei darparu. Mae Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr baratoi datganiad sy'n nodi sut y bydd yn arfer pob un o'i swyddogaethau ymyrraeth, a bydd y ddyletswydd hon yn dod i rym ar 5 Ebrill 2025.

Gan edrych tua'r dyfodol, byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad ar 8 Ebrill yn nodi ein dull arfaethedig o weithredu'r is-ddeddfwriaeth sy'n weddill sy'n angenrheidiol i gwblhau'r fframwaith deddfwriaethol a fydd yn sail i'r gofrestr. Mae hyn yn cynnwys dau offeryn statudol, y cyntaf ohonynt yn rhagnodi'r terfynau ffioedd dysgu, a'r ail yn nodi'r 'personau cymhwysol' a 'cyrsiau cymhwysol' at ddibenion y terfynau ffioedd

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru ar ôl sefydlu'r gofrestr.

# SL(6)606 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Cymeradwywyr"). Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn gosod gofynion ar bobl sy'n gwneud gwaith adeiladu. Mae'r Rheoliadau Cymeradwywyr yn darparu ar gyfer goruchwylio gwaith adeiladu gan gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion newydd ar gyfer seilwaith a chysylltedd digidol mewn anheddau newydd sy'n barod i drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit. Maent hefyd yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol o'r gofynion newydd mewn perthynas â gwaith adeiladu a hysbyswyd yn flaenorol i awdurdod lleol sydd naill ai eisoes wedi dechrau neu sy'n dechrau o fewn 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 4(2)(b), drwy fewnosod rheoliad 44ZAA (Particulars of connection to public electronic communications network) yn y prif reoliadau, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gwneud y gwaith adeiladu roi gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol heb fod yn hwyrach na'r diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau. Mae'r gofyniad am wybodaeth a nodir yn rheoliad newydd 44ZAA(2)(c)(ii) drwy gyfeirio at gyfnod o ddwy flynedd *"beginning with the day on which **the notice** is given"*. Nid yw'n glir at ba hysbysiad y mae'r ddarpariaeth hon yn cyfeirio.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mewnosodir rheoliad newydd 44ZC(8)(iii) gan reoliad 4(2)(b) o'r Rheoliadau hyn ac mae'n cyfeirio at "public electronic communications service". Fodd bynnag, nid yw'r term wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau hyn na'r prif Reoliadau. Fe'i diffinnir yn adran 151(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. A ddylai diffiniad o'r term hwn fod wedi'i fewnosod yn rheoliad 44C (dehongli) ynghyd â'r diffiniad newydd o "public electronic communications network"?

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried na fyddai'r cyfnod o 2 flynedd y cyfeirir ato yn rheoliad 44ZAA(2)(c)(ii) yn cael ei ystyried ond pe dibynnid ar baragraff RA1(1)(c)(i) neu (ii) ac, o dan yr amgylchiadau hynny, byddai angen i'r darllenydd ystyried gofynion paragraff RA1(1)(c)(i) a (ii) yn gyntaf. Ar ôl gwneud hynny, rydym yn ystyried y byddai'r darllenydd yn deall bod y "notice" y cyfeirir ato yn rheoliad 44ZAA(2)(c)(ii) naill ai'n hysbysiad adeiladu, yn hysbysiad cychwynnol neu'n hysbysiad corff cyhoeddus, fel y'u disgrifir yn y diffiniad o "the relevant 2-year period" ym mharagraff RA1(3). Am y rhesymau hyn, nid oes unrhyw ganlyniadau cyfreithiol wedi eu nodi, ac felly rydym yn ystyried nad oes angen diwygiad.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y term "public electronic communications service" yn hunanesboniadol. Rydym hefyd yn ystyried bod y diffiniad o "public electronic communications network" sydd wedi ei fewnosod yn y rheoliadau (gan reoliad 4(3)(e)) yn cyfeirio'r darllenydd at eiriad y diffiniad hwnnw yn adran 151(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys cyfeiriad at "electronic communications services" a fyddai wedyn yn cyfarwyddo'r darllenydd i edrych ar y diffiniad o "public electronic communications service" yn adran 151(1). Am y rhesymau hyn, nid oes unrhyw ganlyniadau cyfreithiol wedi eu nodi, ac felly rydym yn ystyried nad oes angen diwygiad.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

29 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy ngohebiaeth ynghylch y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dwristiaeth, wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mai 2025.

Rwyf bellach yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fod y cyfarfod wedi'i ohirio.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto maes o law pan fydd dyddiad newydd ar gyfer y Grŵp wedi'i gytuno.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Copy to the Chairs of:

- the Finance Committee;
- the Economy, Trade and Rural Affairs Committee; and
- the Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC-RE-00412-25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

30 Ebrill 2025

Annwyl Mike

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a'r cyfarfod a gynhelir ar 6 Mai 2025.

Llywodraeth Cymru a fydd yn cynnal y cyfarfod nesaf, a fi fydd y cadeirydd. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Strategaeth Ddiwydiannol, gan roi cyfle i'r gwledydd datganoledig gyflwyno trosolwg strategol o'u blaenoriaethau economaidd sy'n seiliedig ar leoedd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

29 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Treftadaeth Geltaidd – Cytundeb Cydweithio Cernyw-Cymru: Adroddiad Blynyddol 2023-2024 wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Cernyw ac mae ar gael yma.


Llofnodwyd Treftadaeth Geltaidd – Cytundeb Cydweithio Cernyw-Cymru gan Gyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2023. Mae'r Cytundeb, sy'n weithredol am bum mlynedd i gychwyn, yn adeiladu ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng Cyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru drwy annog rhagor o gydweithio a dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac er budd y ddwy ochr. Cafodd pedwar maes sy'n rhoi cyfle sylweddol i feithrin y berthynas rhwng Cernyw a Chymru eu nodi. Roedd y meysydd hynny fel a ganlyn:

a) Darparu tai cynaliadwy
b) Cyflawni Sero Net
c) Economïau gwledig ffyniannus.
d) Dathlu iaith a diwylliant

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn, sydd wedi'i gyd-gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cernyw, yn berthnasol i gyfnod hwy na'r arfer (Gorffennaf 2023-Rhagfyr 2024), er mwyn cynnwys cyfnod cychwyn o chwe mis.

Rwyf hefyd yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Eluned Morgan**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0636/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Mai 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'm llythyr ym mis 25 Mawrth 2024, rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Diwygio'r Cyfnod Trosiannol o Ran Rheolaethau Swyddogol 2025 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig:

https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/ws-ld17140-cy.pdf

Rhoddir caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn er mwyn osgoi bwlch rhwng diwedd yr esmwythiadau a chychwyn polisïau newydd. Mae hyn yn sicrhau nad yw rhai nwyddau SPS yr UE yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol diofyn o 1 Gorffennaf 2025. Mae'r Rheoliadau'n cydblethu â pholisi datganoledig ac fe'u cymhwysir yng Nghymru. Mae'r Offeryn Statudol yn destun gweithdrefn negyddol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 29 Ebrill 2025.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg i Andrew RT Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Pontio) (Diwygio) 2025** |
| **DYDDIAD** | **29 Ebrill 2025** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies MS/AS Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Gweinidog Gwladol arfer is-bŵer deddfu mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ceisiodd y Gweinidog Gwladol dros Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, y Farwnes Sue Hayman, fy nghytundeb i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Pontio) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr offeryn uchod gan, y Farwnes Hayman, drwy arfer y pwerau a roddwyd o dan erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('yr OCR') a pharagraff 2 o Atodiad 6 iddo.

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar y Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) rhwng y tair llywodraeth ym Mhrydain Fawr i gyflwyno cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol gydlynol a chyson ar gyfer nwyddau wedi'i fewnforio i Brydain Fawr i ddiogelu bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

Pwrpas Rheoliadau 2025 yw ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol ('SPS') sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o wledydd penodol, tan 31 Ionawr 2027. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i drosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol ar gyfer y BTOM. Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2025 ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2025/526/contents/made

Mae'r Ddarpariaeth Arbedion Trosiannol (TSP) yn darparu ar gyfer pedwar maes hyblygrwydd allweddol i sicrhau bod polisïau BTOM yn cael eu gweithredu mewn ffordd reoledig. Mae'r rhain yn rhaghysbysu, ardystio, (gan alluogi rhedeg y peilot / cynllun logisteg ardystio), lleoliad gwiriadau (h.y. i ffwrdd o Safle Rheoli Ffiniau), ac amlder gwiriadau. Pe bai'r TSP yn dod i ben ar 1 Gorffennaf 2025, byddai unrhyw bolisïau sy'n weddill nad oeddent eto wedi trosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol o dan y BTOM 'yn ddiofiant' i'r rheolaethau cyfredol sy'n ofynnol gan yr OCR. Yn yr achos hwn, byddai darpariaethau presennol yr OCR yn berthnasol a byddai gwiriadau SPS yn cael eu gosod ar fewnforion sy'n cyrraedd Cymru.

Gosodwyd Rheoliadau 2025 gerbron Senedd y DU ar 29 Ebrill a byddant yn dod i rym ar 20 Mai 2025.

Nid yw Rheoliadau 2025 yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Senedd, fel arfer polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod mewn newid polisi yn y dyfodol a chadw at rwymedigaethau rhyngwladol, cydlynu traws-DU, a chysondeb.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **RHEOLIADAU CAFFAEL CYHOEDDUS (DIRYMU) 2025**

**DYDDIAD** **30 Ebrill 2025**

**GAN** **Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan yr Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025.

Mae'r OS yn ymwneud â phum darn o ddeddfwriaeth a bennir yn yr Atodlen sy'n cael eu dirymu naill ai yn eu cyfanrwydd neu i'r graddau a bennir oherwydd nad ydynt bellach yn cynhyrchu unrhyw effaith gyfreithiol yng Nghymru, Lloegr na Gogledd Iwerddon.

Gosodwyd yr OS uchod gerbron Senedd y DU gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ar 25 Ebrill 2025 drwy arfer y pŵer a roddwyd gan Adran 14(1) o Ddeddf Cyfraith y DU a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 a bydd yn dod i rym ar 15 Mai 2025.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, yn diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a chydgysylltiad trawslywodraethol, a chysondeb.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: PO/HIDCC/0130/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am eu sylw i'm llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2025 a'ch cais wedi hynny am esboniad ynglŷn â’i amseriad ac am yr oedi a fu cyn gwneud Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 (a ailenwyd i adlewyrchu'r flwyddyn y cawsant eu gwneud (2025)) ("Rheoliadau 2024").

Yn gyntaf, ymddiheuraf am beidio â rhoi digon o gyfle i'r Pwyllgor fynegi barn cyn imi roi fy nghydsyniad ffurfiol. Y rheswm am hynny oedd am i ni drefnu bod yr Offeryn Statudol (OS) yn cael ei osod ar 12 Mawrth ac o ganlyniad, roedd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y dyddiad hwnnw. Cawsom hefyd gais brys gan swyddogion Defra am benderfyniad erbyn 6 Mawrth 2025. Er i'r Farwnes Hayman o Ullock ysgrifennu ataf ar 8 Ionawr 2025, ni ddaeth yr OS terfynol i law tan fis Chwefror 2025. Roedd angen amser, a theg hynny, ar swyddogion i asesu a gwerthuso'r OS a'i oblygiadau'n llawn. Mae'n rhoi esemptiadau sy'n seiliedig ar amser ar gyfer Dechlorane Plus ac UV-328 o dan amgylchiadau penodol.

O ran yr oedi cyn gwneud Rheoliadau 2024, dywedodd Defra wrthym, yn dilyn gosod Rheoliadau 2024 drafft, fod gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr y diwydiant wedi rhoi gwybodaeth fod angen rhagor o esemptiadau. Gall newidiadau annisgwyl ddigwydd pan fydd cyfyngiadau yn effeithio ar sectorau allweddol mewn ffyrdd na chawsant eu rhagweld. Mae diwydiannau'n gymhleth ac yn gallu wynebu heriau newydd neu gael gwybodaeth newydd annisgwyl. Fe all felly bod angen newid y rheoliadau rhag tarfu ar weithrediadau neu ar sefydlogrwydd economaidd. Mae hyblygrwydd o'r fath yn hanfodol i allu cadw cydbwysedd rhwng amcanion y rheoliadau a'r realiti sy'n wynebu sectorau gwahanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd angen trefnu'r ddau offeryn fel nad oedd bwlch rhwng y darpariaethau sy'n dod i rym o dan Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") a'r esemptiadau ychwanegol a ddarperir yn Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ("Rheoliadau 2025").

Gobeithio bod hyn o esboniad yn egluro'r rhesymau dros yr amseriad a'r oedi wrth wneud y rheoliadau. Cysylltwch â mi os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

21 Mawrth 2025

Annwyl Huw

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2025, ystyriodd y Pwyllgor eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2025 mewn perthynas â’ch bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025 (Rheoliadau Rhif 2). Sylwaf o’ch llythyr dyddiedig 12 Mawrth 2025 ichi roi eich cydsyniad wedi hynny, a bod Rheoliadau Rhif 2 wedi’u gwneud a’u gosod ar 11 Mawrth 2025.

Nododd y Pwyllgor eich datganiad yn eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth fod y Farwnes Hayman o Ullock wedi ysgrifennu atoch ar 8 Ionawr 2025 i ofyn am eich cydsyniad i Reoliadau Rhif 2. O ystyried bod amseriad eich llythyr yn golygu mai dim ond cyfnod cyfyngedig iawn a roddwyd i’r Senedd i fynegi barn cyn i’ch cydsyniad gael ei roi’n ffurfiol, byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael eglurhad ynghylch pam nad oedd modd ichi gyfleu eich bwriad i gydsynio i’r Pwyllgor yn gynharach.

Nododd y Pwyllgor hefyd eich esboniad nad oedd Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 (eu teitl ar y pryd), a gymeradwywyd gan Senedd y DU ar 4 Rhagfyr 2024, wedi’u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar adeg eich llythyr. Aethoch ymlaen i ddatgan yn eich llythyr y byddai’r rheoliadau hyn: yn cael eu gwneud ar 11 Mawrth; yn dod i rym 21 diwrnod yn ddiweddarach ac yn union cyn Rheoliadau Rhif 2; ac y byddent yn cael eu hailenwi'n Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2025. Mae’n ymddangos i ni fod llawer iawn o amser wedi mynd heibio rhwng cymeradwyo’r rheoliadau hyn yn Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn eu gwneud. Yn hyn o beth, byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu’r hyn rydych yn ei ddeall ynghylch pam y digwyddodd hyn, a’r sail gyfreithiol dros oedi o’r fath, er budd tryloywder a hyrwyddo deddfu da.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb ar y ddau fater hyn erbyn 23 Ebrill 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

28 Ebrill 2025

Annwyl Mike

**Ymrwymiadau i gywiro offerynnau statudol**

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod deddfwriaeth yn hawdd ei deall ac yn sicr ei heffaith. Serch hynny, bydd camgymeriadau yn digwydd weithiau ac mewn achosion o'r fath bydd y Llywodraeth yn ceisio cywiro'r materion hynny pan fo angen. Rydym yn ceisio gwneud hynny gan ddefnyddio'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol sydd ar gael.

I'r perwyl hwnnw, mae gwaith ar y gweill ar ddatblygu'r set gyntaf o offerynnau statudol 'omnibws' a fydd yn gwneud diwygiadau i amrywiol offerynnau cynharach. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl i'r rhain fod ar ffurf un set o Reoliadau a Gorchymyn ar wahân, y ddau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn "negyddol". Y bwriad presennol yw y bydd yr offerynnau hyn yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn toriad yr haf. Bydd y ddau offeryn yn bodloni nifer o'r ymrwymiadau yn y tabl sydd wedi'i atodi i'ch llythyr dyddiedig 16 Ionawr, yn ogystal â diwygio rhai mân faterion eraill y byddai'n briodol ymdrin â nhw ar yr un pryd. Mae rhai o'r offerynnau a restrir yn eich atodiad eisoes wedi'u datrys neu byddant yn cael eu trin gan offerynnau diwygio eraill.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor yn ceisio diweddaru ei ddadansoddiad o ymrwymiadau yn rheolaidd, felly rwy'n amgáu atodiad sy'n rhoi diweddariad ar y materion yn eich tabl, i'ch cynorthwyo â hynny. Byddwch yn ymwybodol bod cynnwys unrhyw fater yn un o'r offerynnau statudol omnibws yn ddibynnol ar benderfyniadau terfynol y Gweinidog. Fodd bynnag, mae'r tablau atodedig yn cynrychioli ein cynigion cyfredol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**ATODIAD**

**Tabl 1 – Diweddariad ar yr offerynnau a nodir yn yr Atodiad i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 16 Ionawr 2025**

| Mater | Rhif yr OS | Enw'r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 1 | OS 2022/1348 | Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 | Yn unol â llythyr y Dirprwy Brif Weinidog dyddiedig 18 Hydref 2024, gwnaed y cywiriad ar gyfer pwynt adrodd 25 yng Ngorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025 (OS 2025/403). Gwnaed y Gorchymyn hwnnw ar 27 Mawrth 2025. |
| 2 | OS 2023/1303 | Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023 | Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwynt adrodd 3 yn un o'r offerynnau diwygio omnibws. |
| 3 | OS 2023/1349 | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 | Cafodd y camgymeriadau eu cywiro gan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/16) a wnaed ar 8 Ionawr 2025. |
| 4 | OS 2023/1421 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 | Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwyntiau adrodd 5 i 8 ynghyd â diwygiadau i Reoliadau 2023 yn dilyn trafodaethau contract yn ystod 2024/25; caiff yr offeryn hwn ei gyflwyno yn ystod y misoedd nesaf ac felly ni fydd y diwygiadau hyn yn rhan o'r naill neu'r llall o'r offerynnau diwygio omnibws. |
| 5 | OS 2024/13 | Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/792). |
| 6 | OS 2024/28 | Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 | Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwynt adrodd 1 yn un o'r offerynnau diwygio omnibws. |
| 7 | OS 2024/119 | Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/1214). |

| Mater | Rhif yr OS | Enw’r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Rhif 2) (Cymru) 2024 | |
| 8 | OS 2024/135 | Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 | Mae’r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwyntiau adrodd 2, 4, 5 a 6 yn un o’r offerynnau diwygio omnibws. |
| 9 | OS 2024/388 | Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 | Yn unol â'r ymateb gwreiddiol i'r Pwyllgor, mae'r Llywodraeth bellach wedi adolygu'r angen i wneud diwygiad i Reoliadau 2024 i ymdrin â phwynt adrodd 3. Ni fyddai'n briodol newid y geiriad gan y byddai hyn yn creu gwahaniaeth annymunol gyda'r un geiriad a ddefnyddir mewn pum set arall o Reoliadau. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd felly. |
| 10 | OS 2024/316 | Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 | Fel y nodwyd yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor dyddiedig 29 Ionawr 2025, bwriedir ymdrin â phwynt adrodd 3 i OS 2024/316 drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2023 (OS 2003/3227) a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 (OS 2003/3246). Caiff rhain eu gwneud yn un o’r offerynnau diwygio omnibws. Yn y dyfodol byddwn yn diweddaru ar sail OS 2003/3227ac OS 2003/3246yn hytrach nag OS 2024/316. |
| 11 | OS 2024/339 | Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024 | Mae’r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwynt adrodd 2 ar OS 2024/339 drwy wneud diwygiadau i Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 (OS 2011/656). Bydd hyn yn cael ei fwrw ymlaen yn un o'r offerynnau diwygio omnibws. Bydd diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn erbyn OS 2011/656 nid OS 2024/339. |
| 12 | OS 2024/698 | Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae’r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/1002). |

| Mater | Rhif yr OS | Enw'r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 13 | OS 2024/782 | Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 | Gwnaed y diwygiadau i Reoliadau 2024 gan Reoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/181) (a gweler Tabl 2 isod hefyd). |
| 14 | OS 2024/767 | Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 | Mewn perthynas â phwyntiau adrodd 3, 5, 7, 10, 11, 14, 15, 16, a 17, bwriad gwreiddiol y Llywodraeth oedd cyflwyno diwygiadau yng ngwanwyn 2025. Y bwriad yn awr yw ymdrin â'r materion hyn yn un o'r offerynnau diwygio omnibws. |
| 15 | OS 2024/774 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/1065). |
| 16 | OS 2024/797 | Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 | Mae'r Llywodraeth wedi ymdrin â phwyntiau adrodd 3, 5, 6 a 7 yn Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025 (OS 2025/230) a wnaed ar 27 Chwefror 2025. |
| 17 | OS 2024/810 | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 | Mae'r Llywodraeth wedi ymdrin â phwyntiau adrodd 1 a 4 yn Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/193) a wnaed ar 19 Chwefror 2025. |
| 18 | OS 2024/930 | Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/1258) |
| 19 | OS 2024/924 | Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 | Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r rhain wedi eu diwygio (gweler: OS 2024/1258) |
| 20 | OS 2024/1045 | Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024 | Mewn perthynas â phwyntiau adrodd 2, 3, 4, 5 a 6 bwriad gwreiddiol y Llywodraeth oedd cyflwyno diwygiadau |

| Mater | Rhif yr OS | Enw’r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | | yn fuan yn 2025, ac rydym yn cadarnhau yn awr yr ymdrinnir â’r rhain yn un o’r offerynnau diwygio omnibws. |
| 21 | OS 2024/1109 | Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024 | Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â phwynt adrodd 1 ar OS 2024/1109 drwy wneud diwygiadau i Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (OS 2018/645). Bydd hyn yn cael ei fwrw ymlaen yn un o'r offerynnau diwygio omnibws. Bydd diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn erbyn OS 2018/645 nid OS 2024/1109 |

**Tabl 2 – Materion ychwanegol**

| | Rhif yr OS | Enw’r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 1. | 2015/1844 | Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 | Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (OS 2025/151) yn nodi y gwneir diwygiad i OS 2015/1844. Caiff hwn ei gynnwys yn yr offeryn diwygio omnibws. |
| 2. | 2023/1393 | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 | Roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor yn nodi y byddem yn gofyn am slip cywiro i ymdrin â phwynt adrodd 3.  Ymdrinnir â hwn yn un o’r offerynnau diwygio omnibws drwy ddiwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (OS 2021/77). Bydd diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn erbyn OS 2011/656 nid OS 2024/339.. |
| 3. | 2025/88 | Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025 | Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Rheoliadau hyn wedi cadarnhau y caiff un o’r offerynnau diwygio omnibws ei ddefnyddio i ymdrin â phwyntiau adrodd 1, 3, 4 a 5 |
| 4. | 2025/181 | Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 | Mae’r Llywodraeth wedi rhoi gwybod i’r Pwyllgor ei bod yn bwriadu diwygio Rheoliadau 2025 i ymdrin â phwynt adrodd 1 fel rhan o reoliadau pellach i orffen gweithredu Deddf Caffael 2023. Dyma fwriad y Llywodraeth o hyd, ac felly |

| | Rhif yr OS | Enw’r offeryn | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | | ni fydd hyn yn rhan o'r naill neu'r llall o’r offerynnau diwygio omnibws. |
| 5. | - | Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 | Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor yn nodi y caiff diwygiad ei wneud i’r Rheoliadau hyn (mewn perthynas â phwynt adrodd technegol 1) pan gaiff Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (“y gorchymyn cynnal etholiadau”) ei wneud yn ddiweddarach eleni. |
